

# Online Research @ Cardiff

This is an Open Access document downloaded from ORCA, Cardiff University's institutional repository: <http://orca.cf.ac.uk/96353/>

This is the author's version of a work that was submitted to / accepted for publication.

Citation for final published version:

Rees, Iwan Wyn. 2017. Modern Welsh: A Comprehensive Grammar (3rd edition; 2016) by Gareth King. [Book Review]. The Journal of Celtic Linguistics 18 , pp. 234-240. 10.16922/jcl.18.8 file

Publishers page: <https://doi.org/10.16922/jcl.18.8> <<https://doi.org/10.16922/jcl.18.8>>

Please note:

Changes made as a result of publishing processes such as copy-editing, formatting and page numbers may not be reflected in this version. For the definitive version of this publication, please refer to the published source. You are advised to consult the publisher's version if you wish to cite this paper.

This version is being made available in accordance with publisher policies. See <http://orca.cf.ac.uk/policies.html> for usage policies. Copyright and moral rights for publications made available in ORCA are retained by the copyright holders.



## Adolygiad o *Modern Welsh: A Comprehensive Grammar* (3<sup>ydd</sup> argraffiad) gan Gareth King (2016)

Fel y mae teitl y gyfrol hon yn ei amlygu, llyfr gramadeg yn anad dim yw'r trydydd argraffiad o *Modern Welsh: A Comprehensive Grammar* gan Gareth King (2016). Gellid dadlau er hynny fod y gyfrol yn cyflawni swyddogaeth ehangach hefyd gan mai'r hyn a geir yn un o adrannau olaf y gyfrol, sef 'Functions and Situations' (2016: 405–484), yw rhestr gynhwysfawr ddigon o ymadroddion ar gyfer digwyddiadau a sefyllfaoedd amrywiol, sy'n ychwanegol at y llu o frawddegau enghreifftiol defnyddiol sy'n cyd-fynd â'r rheolau neu'r patrymau ieithyddol a gyflwynir ym mhob adran o'r ramadeg ei hunan. Nid oes dim dwywaith felly na fydd nifer helaeth o elfennau'r gyfrol hon yn dra defnyddiol i nifer o ddefnyddwyr y Gymraeg, yn enwedig dysgwyr yr iaith a'u hathrawon.

Fodd bynnag, cyn ymdrin â'r hyn a ystyriaf yn gryfderau ac yn wendidau yn y gyfrol hon, y mae'n briodol pendroni rhywfaint ynghylch yr hyn a olyga King wrth y term 'Modern Welsh'. Mewn gwirionedd, teflir rhywfaint o oleuni ar hyn yn ei ragymadrodd i'r gyfrol lle'r ymdrinnir â gwahanol 'deipiau' o Gymraeg. Dyma a ddywedir, er enghraifft, am y gwahaniaeth rhwng 'Cymraeg Llafar' a 'Chymraeg Llenyddol':

A distinction must first be made between... Colloquial (or Spoken) Welsh... and Literary Welsh. The difference between these two is much greater than between the virtually identical colloquial and literary forms of English – so great in fact that there are good grounds for regarding them as separate languages – certainly the verb systems at least are radically different. (2016: xv)

Eir ymlaen i ddisgrifio 'Cymraeg Llenyddol' fel 'artificial language – consciously planned and designed... with a deliberate disregard for the native speech of ordinary people' (2016: xv). Nid dyma'r lle i fanlyu ar gywirdeb y dehongliad hwn, ond y mae'n amlwg ddigon fod ymwrthod â 'Chymraeg Llenyddol' yn un o amcanion y gwaith hwn, ac mai ei nod yn hytrach yw glynu wrth yr hyn a elwir yn 'Modern Standard Welsh – a standardised written form of the language that more closely corresponds to spoken norms...' (2016: xvi). Efallai y barnai rhai fod awgrym anffodus yn y geiriau hyn nad yw ffurfiau Cymraeg 'llynyddol', neu ffurfiau safonol traddodiadol os mynnir, bellach yn 'fodern' nac yn 'fyw' yng ngolwg King (cofier am feirniadaeth Ceinwen Thomas o'r term 'Cymraeg Byw').

Cystal imi bwysleisio yma hefyd nad yw 'Cymraeg Modern' King yn gyfystyr â 'Chymraeg Byw', sef ymgais pwyllgor o academyddion yn y 1970au i ddwyn yr iaith lenyddol a'r iaith lafar yn nes at ei gilydd. Diddorol nodi yn y cyswllt hwn fod y ddau argraffiad cyntaf o *Modern Welsh* yn feirniadol o 'Gymraeg Byw', ac yn ei gyfrif, megis 'Literary Welsh', yn 'artificial in that it is not a native language' (2003: 3), tra nad oes ar y llaw arall unrhyw sôn yn y trydydd argraffiad hwn am yr amrywiad hwnnw. Tybed, felly, a yw King o'r farn nad yw 'Cymraeg Byw' bellach yn berthnasol i amrywiadau cyfoes y Gymraeg (er y gellid dadlau bod dylanwad sawl un o argymhellion y llyfrynnau hynny i'w gweld yn amlwg yn *Modern Welsh*)?

Beth bynnag am hynny, yng ngoleuni'r pwys mawr o rydd King ar iaith lafar 'frodorol', ymddengys na ellir cloriannu llwyddiant y gyfrol hon heb ofyn cwestiwn sylfaenol, sef i ba raddau y mae'r amrywiad(au) a gyflwynir yn *Modern Welsh* yn adlewyrchiad teg o batrymau llafar arferol y Gymru gyfoes?

Cyn mynd i'r afael â'r cwestiwn hwnnw, fodd bynnag, y mae'n rhaid yn y lle cyntaf ganu amryw glodydd y mae cyfrol sylweddol fel hon yn eu haeddu. Un o ragoriaethau'r gyfrol yn sicr yw'r modd y ceir ynddi esboniadau (neu ddiffiniadau) eglur o wahanol rannau ymadrodd a strwythurau cystrawennol. Y mae'r patrymau gramadegol hyn wastad wedi eu cefnogi gan frawddegau enghreifftiol, sy'n cynnwys cyfoeth o ymadroddion ac idiomau mewn gwahanol gyd-destunau, ynghyd ag argymhellion defnyddiol megis y gwahanol ffyrdd o gyfieithu *time* i'r Gymraeg. Fe'm trawyd fod King ar ei orau wrth ymdrin â gwahaniaethau cystrawennol sy'n heriol i ddysgwyr y Gymraeg, e.e. y cyd-destunau gwahanol sy'n caniatáu 'mae', 'sydd' ac 'ydy' (diau y byddai 'ydi' yn adlewyrchiad tecach o ynganiad siaradwyr holl ardaloedd Cymru, er hynny). Yr oedd yn dda gweld yr awdur hefyd yn tynnu cymariaethau'n gyson rhwng patrymau Cymraeg ac eiddo ieithoedd eraill, e.e. rhwng y Gymraeg a'r Ffrangeg yn achos ansoddeiriau penodol a all ragflaenu a dilyn enwau. Un arall o arferion cymeradwy King yw ei ddefnydd effeithiol o symbolau gwahanol ar gyfer dynodi'r treigladau, er y gall fod yn boendod i rai nad yw'r sbardunau treiglo wastad yn weladwy, e.e. yn 'Beth mae hyn yn °feddwl?'. Yn ddigamsyniol felly, gall nifer o siaradwyr Cymraeg (yn enwedig y rheini sydd â'r Gymraeg yn ail iaith iddynt) elwa'n sylweddol o ddadansoddiadau King o ramadeg y Gymraeg. Er nad wyf yn cytuno â phob dehongliad – gwell fyddai gennyf, er enghraifft, ystyried 'moch' a 'defaid' yn enwau lluosog, gan gyfyngu'r term 'enwau torfol' (*collective nouns*) i ymadroddion fel 'cenfaint o foch' a 'diadell o ddefaid' –, y mae'r awdur yn sicr yn meddu ar ddealltwriaeth eang o deithi'r Gymraeg, a phan fo ar ei orau, gwelir ganddo ymwybyddiaeth dda o'r gwahaniaeth rhwng tueddiadau ysgrifenedig a rhai llafar.

Fodd bynnag, fel yr awgrymais yn gynharach, ni ellir barnu'r gyfrol hon heb ystyried ei llwyddiant i gyfleu amrywiadau llafar y Gymru gyfoes. Ofnaf er hynny mai'r llinyn mesur hwnnw sydd mewn gwirionedd yn amlygu rhai o brif wendidau *Modern Welsh*. Beth yw'r rheini, felly?

Yn y lle cyntaf, oherwydd penderfyniad King i ymyrryd ag orgraff safonol y Gymraeg er mwyn adlewyrchu ynganiadau llafar, gellid dadlau bod y sillafiadau a ddefnyddir yn y gyfrol hon yn aml yn ddryslyd i'r sawl sy'n gyfarwydd â darllen Cymraeg (heb sôn am y rheini nad ydynt!). Cymerer y ddwy frawddeg ganlynol, er enghraifft: 'Mi na i bopeth' a 'Nes i adael y papurau'. Ni fyddai'n syndod gennyf pe bai raid i rai darllenwyr Cymraeg (profiadol) ddarllen y rhain sawl gwaith cyn deall mai ffurfiau berfol ar 'gwneud' sydd yma.

Peth arall a dueddai i'm blino, os nad fy nrysu ymhellach, oedd diffyg cysondeb yn yr atalnodi. Tra defnyddir collnodau mewn rhai ffurfiau fel yr erthyl 'dy' (e.e. 'Eich car eich hun 'dy hwn, 'te?'), anghofir amdanynt mewn geiriau eraill (e.e. y ffurfiau ar 'gwneud' uchod, a'r gair cyntaf yn 'A i yno 'n hun'). Yn ogystal â pheri i sawl brawddeg edrych fel pe baent mewn iaith arall, rhoddir yma hefyd argraff gyfeiliornus nad yw ffurfiau 'llawn' fel 'ydi' ac 'af' yn bosibl ar lafar (er eu bod yn ddigon cyffredin mewn sawl tafodiaith frodorol).

Elfen arall a barodd bryder imi o safbwynt yr amrywiadau llafar a ddefnyddiwyd oedd nad oedd pob un o'r brawddegau enghreifftiol wedi eu lleoli yn ddaearyddol, er bod ynddynt elfennau tafodieithol sy'n perthyn i ranbarthau penodol o Gymru. Cymerer y frawddeg hon, er enghraifft: 'Mae hyn lawn mor bwysig â'r hyn wedsoch chi'. Gan nad oes unrhyw nodyn yma yn egluro mai ffurf gyfyngedig i'r de yw '(g)wedsoch', diau y gallai dysgwr yng ngogledd Cymru gael camargraff lwyr o'r sefyllfa (a druan ohono / -i ped âi ati i ddefnyddio '(g)wedsoch' yng nghwmni defnyddwyr '(d)dutsoch'). Tybed felly a fyddai cyflwyno ffurf fwy safonol sy'n nes at y tir canol (ond yn ddealladwy gan bawb), e.e. 'dywed(s)och', yn fwy priodol mewn gramadeg o'r math hwn?

Y mae'n anfanteisiol hefyd fod y gyfrol hon yn tueddu i gymysgu ffurfiau o wahanol ranbarthau, neu o wahanol gyweiriau, o fewn brawddegau enghreifftiol. Cymerer hon, er enghraifft: 'Dyn nhw ddim wedi deud wrth yr un ohonon ni 'to'. Rhwng y 'deud' gogleddol, a'r 'to' deheuol, heb sôn am y 'Dyn nhw' niwtral (os nad 'artiffisial'), teg fyddai casglu nad yw brawddeg fel hon yn adlewyrchu patrymau yr un dafodiaith frodorol (na'r un dafodiaith newydd, o ran hynny). Ymhellach, ceir yn y gyfrol hon hefyd rai achosion o ymadroddion nad ydynt yn taro deuddeg rywsut fel enghreifftiau o lafar naturiol, neu sy'n drwsogl eu mynegiant, e.e. 'ar gyfartal' ('ar

gyfartaledd' sy'n gyffredin), 'Mae'r bobol 'ma'n wir dlawd' (gwell fyddai 'Mae'r bobl yma'n wirioneddol dlawd'), 'Na gei wir!' (mwy arferol yw 'Na chei wir!' gyda'r treigladd safonol), ac 'Oedd bron i mi gwympo' (gwell fyddai '(Mi/Fe) fu bron imi gwympo'). Gresyn hefyd na wahaniaethir yn y gyfrol hon (dim mwy na mewn sawl gwerslyfr Cymraeg i oedolion) rhwng ffurfiau rhedadwy pwysleisiol a rhai dibwyslais ar yr arddodiad 'i', fel yr awgryma'r enghraifft ddiwethaf.

Nid yw'r gyfrol yn gyson chwaith yn ei hymgais i adlewyrchu nodweddion ffonolegol rhai rhanbarthau o Gymru. Mewn brawddeg megis 'Se fe ddim yn ymddwyn fel 'na tasai ei gariad yn y stafell', sylwer mai '-e' yn hytrach na'r ddeusain '-ai' a gyfleir gan y talfyriad 'Se' (er mai 'bydde' o ran hynny, yn hytrach na 'b(u)ase', a fyddai fwyaf cyffredin yn y de), tra bo'r ffurf lawn 'tasai' ar y llaw arall i'w gweld yn adlewyrchu ynganiad mwy ffurfiol neu fwy niwtral. Efallai y dadleuai'r awdur bod ynganiadau llafar fel '-a' ac '-e' yn ddealedig gan ffurfiau ysgrifenedig fel 'tasai'. Os felly, oni fyddai wedi bod yn well pe bai brawddegau enghreifftiol y gyfrol hon wedi glynu wrth orgraff fwy cyson a safonol? A chan mai ymwneud â'r amrywio a geir yn y sillaf olaf ddiacen rhwng '-a', '-e' a gwahanol ddeuseiniaid yr ydym yma, cystal imi gyfaddef y syndod a gefais wrth ddarllen un o honiadau mwyaf ysgubol y gyfrol '[that] -au as a plural marker... sounds like -a in the N[orth] and like -e in the S[outh]' (2016: 5). Gan nad yw ardal Penllyn, Sir Feirionnydd, na rhannau sylweddol o'r gogledd-ddwyrain, wedi diflannu oddi ar wyneb gogledd Cymru (hyd y gwn), go brin fod unrhyw esgus dros orgyffredinoli yn y fath fodd.

Elfen arall a'm siomodd oedd defnydd cwbl fwriadol yr awdur o sillafiadau ansafonol (y gellid yn rhwydd eu hystyried yn gamsillafiadau), e.e. 'oddiar', 'oddiwrth', 'unrhywun', 'unrhywbeth', 'ambellwaith', 'sawlgwaith', unrhywdro'. Ni allaf yn fy myw gredu y gall unrhyw resymeg call roi cyfrif amdanynt. Wedi'r cyfan, gan fod aceniad cyffredinol y Gymraeg yn dra rheolaidd (h.y. ar y goben y rhoddir y pwyslais yn gyson), ymddengys nad yw'r sillafiadau mympwyol hyn yn gwneud dim i gynnig arweiniad i ddysgwyr o safbwynt ynganiad, ac mai'r cyfan a wnânt mewn gwirionedd yw creu cymhlethdod diangen.

Achos pryder arall imi wrth bori drwy'r gyfrol hon oedd bod yr awdur ar brydiau i'w weld yn honni bod rhai patrymau ansafonol (neu rai sathredig) yn hollol gyffredin yn yr iaith lafar, er bod lle cryf i amau cywirdeb yr honiadau hynny. Cymerer yr haerriad canlynol, er enghraifft: '... it is common enough to hear 'ei plant hi'' (2016: 93). Yn amlwg, perygl sylweddol cyflwyno ffurfiau ansafonol (a symlach yn aml) i ddysgwyr yw mai'r rheini a ddewisir ganddynt; yn anffodus, gall hyn yn ei dro arwain at ganfyddiadau negyddol o gaffaeliad anghyflawn yn yr iaith o du siaradwyr brodorol, yn enwedig os yw'r amrywiadau ansafonol hyn ('ei plant hi' yn yr achos hwn) yn

gyfyngedig eu defnydd i rai unigolion neu ambell garfan anghynrychioladwy o'r boblogaeth Gymraeg. Yn yr un modd, nid yw ffurfiau cymariaethol ansafonol fel 'hawddach' yn fy ngwneud yn gyfforddus; y perygl eto hyd y gwelaf yw bod modd i ddysgwyr gael eu cywiro mewn rhai ardaloedd os defnyddiant y cyfryw ffurfiau. Teg fyddai ychwanegu yma, fodd bynnag, nad yw'r duedd hon i argymhell ffurfiau ansafonol yn gyfyngedig i'r gyfrol hon; fe'i ceir hefyd mewn gwerslyfrau Cymraeg eraill fel *Live Welsh* gan Heini Gruffudd lle'r argymhellir i ddysgwyr negyddu ffurfiau 'bod' â ffurfiau ansafonol megis 'mae e ddim' a 'maen nhw ddim'; ffurfiau a ystyrid, bid sicr, yn fratiog gan nifer o siaradwyr brodorol hyd heddiw.

O safbwynt y ffurfiau berfol a gyflwynir yn *Modern Welsh*, er fy mod yn tueddu i gytuno â llawer o ddeongliadau'r gyfrol o'r modd y defnyddir systemau berfol y Gymraeg (e.e. y defnydd helaethach a wneir o ferfau Dyfodol yn yr iaith lenyddol ar gyfer mynegi'r Presennol), y mae'n briodol gofyn i ba raddau y ceir yma adlewyrchiad teg o batrymau llafar brodorol. O ran bonau ffurfiau Gorffennol, er enghraifft, gellid bod wedi cyfeirio at fonau ansafonol cyffredin, e.e. 'cymr-' (cf. 'cymrodd') a 'troi-' (cf. 'troiodd'); anodd gwybod hefyd pam y cyflwynwyd 'trodd-' fel un o fonau 'troi', oni bai i'r awdur glywed ffurfiau megis 'troddais' a 'troddodd'. Y mae lle i amau hefyd a yw ffurfiau fel 'dyn ni', 'dych chi', 'baswn i' a 'baset ti' yn haeddu eu lle yma os mai adlewyrchu amrywiadau brodorol yw nod y gyfrol (tueddaf i gredu y byddai 'byswn', 'byset' etc. yn nes at ynganiad y rhan fwyaf o ogleddwyr, tra byddai 'byddwn i', 'byddet ti' etc. yn adlewyrchiad tecach o batrymau'r de). O ran yr Amodol wedyn, dadleuwn fod lle i amau a yw rhai o'r ffurfiau a briodolir i'r gogledd, e.e. 'aen ni' a 'caech chi', mewn gwirionedd yn gyffredin ar lafar yno; mwy cyffredin o'm profiad i yw ffurfiau Gorberffaith, e.e. 'Taset ti'n hwyr, 'chaethet ti ddim mynd i mewn'. Fodd bynnag, ni chyfeirir at ffurfiau o'r math hwn o gwbl. Nid yw brawddeg enghreifftiol fel 'Pe wyddai [sic] fo hynny, mi âi o'i go' yn tycio, felly; gwell fyddai 'Tasa fo'n gwbod hynny, aetha fo o'i go'. Er bod ffurfiau Amodol y de yn fwy argyhoeddiadol gan King, fe'm synnwyd braidd nad oedd ganddo nodyn yn egluro mai '-en' yw'r ynganiad arferol ar gyfer y terfyniad 1<sup>af</sup> unigol '-wn', e.e. yn 'elen i' a 'nelen i'.

Nid pentyrri diffygion oedd fy mwriad, ond ar sail un o'r llinynnau mesur a amlinellwyd ar ddechrau'r adolygiad, sef llwyddiant y gyfrol i gyfleu amrywiadau llafar brodorol yn effeithiol, rhaid dod i'r casgliad mai tueddu i gwmpo o dan bwysau'r orchwyl y gosododd King i'w hun y mae'r gyfrol hon. Er bod yr awdur yn awyddus i ymwrthod â ffurfiau 'artiffisial' 'Cymraeg Llenyddol' a rhai 'Cymraeg Byw' fel ei gilydd, ymddengys mai disgyn rhwng dwy stôl y mae ffurfiau megis 'caeth e' a 'warae'; ni ellir eu hystyried yn safonol, ond nid ydynt chwaith yn adlewyrchu

ynganiadau cyffredin yr un dafodiaith draddodiadol. Yr eironi efallai yw mai ffurfiau fel y rhain a gyfrifid yn 'artiffisial' gan lawer o siaradwyr Cymraeg brodorol, nid y ffurfiau llenyddol a drosglwyddwyd iddynt ar hyd y canrifoedd yn rhan o'u cynhysgaeth ddiwylliannol.

---

## Summary

This review of Gareth King's third edition of *Modern Welsh: A Comprehensive Grammar* (2016) commends the many virtues of this book in the first instance, particularly its clear presentation of various parts of speech and syntactical structures, all of which are reinforced by scores of illustrative examples, in addition to some useful guidance for learners of Welsh on areas of difficulty. Whilst it is acknowledged that this volume presents a comprehensive interpretation of the grammatical features of Welsh, this review also explores the significance and implications of 'Modern (Standard) Welsh', a term coined and defined by the author himself, before calling into question the appropriateness of this term with regard to the types of forms employed in this grammar to represent contemporary spoken varieties of Welsh.